# Gofalu am a pharatoi’r gaseg ar gyfer ffrwythloni artiffisial

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gofalu am a pharatoi'r gaseg ar gyfer ffrwythloni artiffisial.

Dylech fod yn gallu gofalu am y gaseg ddiffrwyth, trefnu sganiau milfeddygol i gynorthwyo amseru'r ffrwythloni artiffisial, paratoi'r gaseg ar gyfer ffrwythloni artiffisial a gofalu am gesig sy'n cario ebol o'r cyfnod ffrwythloni artiffisial i fwrw ebol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo dillad priodol ac offer amddiffynol personol ar gyfer y gweithgaredd
2. gofalu am y gaseg ddiffrwyth er mwyn cynyddu ei chyfleoedd ar gyfer beichiogi
3. cymryd rhagofalon priodol i atal clefydau a drosglwyddir yn rhywiol
4. cyfrannu at y gwaith o drefnu cynlluniau sganio i gynorthwyo amseru'r ffrwythloni artiffisial
5. paratoi'r gaseg yn gywir ar gyfer ffrwythloni artiffisial, yn unol ag arfer da presennol
6. cynorthwyo'r broses ffrwythloni artiffisial ar y gaseg
7. gwneud trefniadau ar gyfer profion beichiogrwydd a chyfathrebu â'r person priodol yn brydlon
8. cynnal gofal iechyd cesig sydd yn cario ebol fel mater o drefn o ffrwythloni artiffisial i fwrw ebol, yn cynnwys rheoli parasitiaid, crafu dannedd, tocio traed a brechlynnau arferol
9. cynnal lefelau hylendid a bioddiogelwch addas
10. monitor a chynnal iechyd a diogelwch ceffylau, chi eich hun ac eraill yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y rheoliadau'n ymwneud â swabio cesig am glefydau gwenerol a heintiau
3. sut i adnabod clefyd gwenerol a sut i hysbysu'r awdurdod perthnasol
4. y cynlluniau magu a chofrestru
5. dulliau ac amseriad profion beichiogrwydd
6. achres a dethol cesig a meirch ar gyfer magu, a'r defnydd a fwriedir o hiliogaeth
7. y cylch oestrws, arwyddion o oestrws a rheolaeth hormonaidd ar gyfer ffrwythloni artiffisial
8. y mewnbwn milfeddygol sy'n ofynnol i sefydlu'r amseru cywir ar gyfer ffrwythloni artiffisial
9. yr offer i gael ei ddefnyddio yn ystod ffrwythloni artiffisial
10. y gweithdrefnau i'w dilyn wrth ffrwythloni'r gaseg yn artiffisial a phan nad yw ffrwythloni artiffisial yn cael ei ganiatáu
11. anatomeg atgenhedlol y gaseg a'r march
12. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut caiff y rhain eu rheoli
13. eich cyfrfoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles ac iechyd a diogelwch perthnasol anifeiliaid
14. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch wrth ofalu am a pharatoi cesig ar gyfer cyplu, yn ogystal â'r dulliau o gyflawni hyn

LANEq348

# Gofalu am a pharatoi'r gaseg ar gyfer ffrwythloni artiffisial

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq348 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; caseg; beichiogrwydd; ebol |